O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 30

Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026

Gwnaed	*6 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*9 Chwefror 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 30

The Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Act 2018 (Continuation) Regulations 2026

Made	*6 February 2026*
Coming into force	*9 February 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 30

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ("Deddf 2018") yn gwneud darpariaeth ynghylch yr isafbris y mae alcohol i'w gyflenwi amdano gan fanwerthwyr alcohol o fangreoedd cymhwysol yng Nghymru i berson yng Nghymru, ac mae'n sefydlu cyfundrefn orfodi a arweinir gan yr awdurdod lleol.

Mae adran 22(1) o Ddeddf 2018 yn darparu bod darpariaethau'r isafbris yn dod i ben 6 mlynedd ar ôl i adran 2 o Ddeddf 2018 ddod i rym oni bai y gwneir Rheoliadau o dan adran 22(2) o'r Ddeddf honno i barhau effaith y darpariaethau hynny. Daeth adran 2 o Ddeddf 2018 i rym ar 2 Mawrth 2020.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 22(2) o Ddeddf 2018 ac maent yn parhau effaith darpariaethau'r isafbris.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 30

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026

Gwnaed	*6 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*9 Chwefror 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 22(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**).

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 26(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru(**3**) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Chwefror 2026.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "darpariaethau'r isafbris" ("*minimum pricing provisions*") yr ystyr a roddir gan adran 22(4) o Ddeddf 2018;

(**1**) 2018 dccc 5.
(**2**) EUR 178/2002, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/641; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) Mae'r cyfeiriad yn adran 26(2) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

ystyr “Deddf 2018” (“*the 2018 Act*”) yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018.

Parhau darpariaethau’r isafbris

3. Er gwaethaf is-adran (1) o adran 22 o Ddeddf 2018, nid yw darpariaethau’r isafbris yn cael eu diddymu yn rhinwedd yr is-adran honno ar ddiwedd y cyfnod a bennir ynddi.

Sarah Murphy
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, un o Weinidogion Cymru
6 Chwefror 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 30

PUBLIC HEALTH, WALES

FOOD, WALES

The Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Act 2018 (Continuation) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Act 2018 ("the 2018 Act") makes provision about the minimum price for which alcohol is to be supplied by alcohol retailers from qualifying premises in Wales to a person in Wales and establishes a local authority led enforcement regime.

Section 22(1) of the 2018 Act provides that the minimum pricing provisions expire 6 years after section 2 of the 2018 Act came into force unless Regulations are made under section 22(2) of that Act to continue the effect of those provisions. Section 2 of the 2018 Act came into force on 2 March 2020.

These Regulations are made under section 22(2) of the 2018 Act and continue the effect of the minimum pricing provisions.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations in Wales. A copy can be obtained from the Health and Social Services Directorate, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2026 No. 30

PUBLIC HEALTH, WALES

FOOD, WALES

The Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Act 2018 (Continuation) Regulations 2026

Made	*6 February 2026*
Coming into force	*9 February 2026*

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred by section 22(2) of the Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Act 2018(**1**), make the following Regulations.

There has been a consultation as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying procedures in matters of food safety(**2**).

In accordance with the Senedd approval procedure applied by section 26(2)(b) of the Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Act 2018, a draft of this Welsh statutory instrument was laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru(**3**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Act 2018 (Continuation) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 9 February 2026.

Interpretation

2. In these Regulations—

"the 2018 Act" ("*Deddf 2018*") means the Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Wales) Act 2018;

(**1**) 2018 anaw 5.
(**2**) EUR 178/2002, amended by S.I. 2019/641; there are other amending instruments but none are relevant to these Regulations.
(**3**) The reference in section 26(2) to the National Assembly for Wales now has effect as a reference to Senedd Cymru, by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

"minimum pricing provisions" ("*darpariaethau'r isafbris*") has the meaning given by section 22(4) of the 2018 Act.

Continuation of minimum pricing provisions

3. Despite subsection (1) of section 22 of the 2018 Act, the minimum pricing provisions are not repealed by virtue of that subsection at the end of the period specified in it.

Sarah Murphy
Minister for Mental Health and Wellbeing, one of the Welsh Ministers
6 February 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839800-7

9 780348 398007